**GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (AMRYW FFYRDD SIROL, ARDAL DWYFOR) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 M.Y.A.) 2023**

Ar y 13eg dydd o Fedi, 2023 gwnaed y Gorchymyn uchod gan Gyngor Gwynedd trwy ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 82(2) 83(2) 84(1) a (2) a Rhannau III a IV, Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill.  Effaith y Gorchymyn pan ddaw i rym ar yr 17eg o Fedi, 2023 fydd:

1. Cyfyngu cyflymder i 30 m.y.a. ar y darnau ffyrdd a fanylir arnynt yn yr Atodlen Gyntaf.
2. Diddymu'n rhannol neu'n gyfan-gwbl y Gorchmynion Traffig a fanylir arnynt yn yr Ail Atodlen.

Mae copi o'r Gorchymyn gyda'r cynlluniau yn dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros argymell gwneud y Gorchymyn ar gael yn (a) Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli (b) Llyfrgell Gyhoeddus, Criccieth (c) Llyfrgell Gyhoeddus, Nefyn (d) Llyfrgell Gyhoeddus, Porthmadog ac (e) Llyfrgell Gyhoeddus, Pwllheli yn ystod oriau busnes arferol. Mae hefyd ar gael trwy anfon cais ar e-bost at cynllun20mya@gwynedd.llyw.cymru neu trwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod. Mae manylion llawn y gorchymyn hefyd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd-
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Parcio-ffyrdd-a-theithio/Gorchymynion-Rheoleiddio-Traffig.aspx
Os dymuna unrhyw berson amau dilysrwydd y Gorchymyn ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd gan Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas a'r Gorchymyn neu unrhyw gymal ohono gellir gwneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y cyhoeddir y rhybudd hwn.

**ATODLEN GYNTAF - CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 M.Y.A. AR AMRYW FFYRDD, ARDAL DWYFOR**

| | |
|---|---|
| **Aberdaron** | |
| Ffordd Dosbarth 2 - B4413 | O bwynt oddeutu 157 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd dosbarth 3 sy'n mynd heibio Bro Hywyn am bellter o oddeutu 178 metr i gyfeiriad y dwyrain. Cyfeiriwch at gynllun D41 |
| Ffordd Dosbarth 2 - B4413 | O'i chyffordd â'r ffordd dosbarth 3 sy'n mynd heibio Bro Hywyn i bwynt sydd oddeutu 86 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r Ffordd Dosbarth 3 sy'n mynd heibio'r Eglwys i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D41 |
| Ffordd Dosbarth 3 - yn mynd heibio Bro Hywyn a Fferm Bodernabwy | O'i chyffordd â'r B4413 i bwynt oddeutu 166 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd gyferbyn â'r Eglwys i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D41 |
| Ffordd Dosbarth 3 - yn mynd heibio'r Eglwys a Coach House | Yn ei chyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D41 |
| **Abersoch** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A499 Lôn Pont Morgan | O'i chyffordd â Lôn Tŷ Gwyn am bellter o oddeutu 898 metr i gyfeiriad cyffredinol y gogledd. Cyfeiriwch at gynllun D42 |
| **Beddgelert** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A498 Stryd Gwynant | O bwynt oddeutu 17 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Phont y Felin am bellter o oddeutu 119 metr i gyfeiriad y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D4 |
| **Cricieth** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A497 Stryd Fawr / Ffordd Porthmadog | O'i chyffordd â Lôn Tynllan am bellter o oddeutu 433 metr i gyfeiriad y dwyrain. Cyfeiriwch at gynllun D20 |

| | |
|---|---|
| **Edern** | |
| Ffordd Dosbarth 2 - B4417 Lôn Groesffordd | O bwynt oddeutu 263 metr i'r de-orllewin o groesffordd yng nghanol y pentref am bellter o oddeutu 222 metr i gyfeiriad y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D15 |
| Ffordd Dosbarth 2 - B4417 Lôn Goch | O bwynt oddeutu 33 metr i'r gogledd o Bont Edern am bellter o oddeutu 236 metr i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain. Cyfeiriwch at gynllun D15 |
| **Pentrefelin** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A497 | O bwynt sydd oddeutu 58 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Lôn Tabor i bwynt oddeutu 141 metr i'r dwyrain o'r gyffordd gyferbyn â'r Gofeb Ryfel. Cyfeiriwch at gynllun D21 |
| **Porthmadog** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A4971 Ffordd Tremadog yn mynd heibio'r Orsaf Dân | O'i chyffordd â chylchfan yr A487 am bellter o oddeutu 113 metr i gyfeiriad y de. Cyfeiriwch at gynllun D23 |
| Ffordd Dosbarth 3 - Ffordd y Borth | O bwynt oddeutu 8 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r Rhiw i'w chyffordd â Ffordd Morfa Bychan i gyfeiriad y de. Cyfeiriwch at gynlluniau D23 a D24 |
| Ffordd Ddi-ddosbarth - Ffordd y Borth | O'i chyffordd â Ffordd Morfa Bychan am bellter o oddeutu 342 metr i gyfeiriad y de. Cyfeiriwch at gynllun D24 |
| Ffordd Dosbarth 3 - Ffordd Morfa Bychan | O'i chyffordd â Ffordd y Borth am bellter o oddeutu 401 metr i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D24 |
| **Prenteg** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A498 | O bwynt oddeutu 30 metr i'r de o'i chyffordd ddeheuol â'r ffordd ddi-ddosbarth sy'n mynd heibio London Terrace am bellter o oddeutu 318 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain. Cyfeiriwch at gynllun D9 |
| **Pwllheli** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - A497 Lôn Abererch | O bwynt oddeutu 6 metr i'r dwyrain o Bont Erch am bellter o oddeutu 484 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain. Cyfeiriwch at gynllun D33 |
| **Tremadog** | |
| Ffordd Dosbarth 1 - yr A498 yn arwain i Benamser | O'i chyffordd â chylchfan yr A487 am bellter o oddeutu 215 metr i gyfeiriad y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D22 |
| **Tudweiliog** | |
| Ffordd Dosbarth 2 - B4417 | O bwynt oddeutu 47 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd ger yr eiddo a adwaenir fel Rhent am bellter o oddeutu 230 metr i gyfeiriad y de-orllewin. Cyfeiriwch at gynllun D26 |
| **Y Ffôr** | |
| Ffordd Dosbarth 2 - B4354 yn arwain i Chwilog | O bwynt oddeutu 16 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Pharc Busnes Gromlech am bellter o oddeutu 197 metr i gyfeiriad y dwyrain. Cyfeiriwch at gynllun D17 |

## AIL ATODLEN - DIDDYMU GORCHMYNION TRAFFIG

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (A499 Ffordd Caernarfon, Clynnog Fawr) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 2001. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R1

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Lôn Ganol a Lôn Mur Sant, Clynnog Fawr) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1999. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R1

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Garndolbenmaen a Llanengan) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 2009. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R2 a chynllun D30R21

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffordd Ddi-ddosbarth Pencaenewydd) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1995. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R3

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffyrdd Dosbarth III yn Llangybi) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1993. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R4

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Edern (Amryw Ffyrdd) A499 Y Ffôr, A499 Llanbedrog, B4417 Morfa Nefyn i Edern a'r B4412 Morfa Nefyn) (Cyfyngiad Cyflymder 30 a 40 m.y.a.) 2014. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn unig yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R5

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Dosbarth II y B4417 Nefyn-Morfa Nefyn) (Cyfyngiad Cyflymder Parth 30 a 40 m.y.a.) 2010. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn unig yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R6

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ardal Dwyfor) (Cyfyngiad Cyflymder 30, 40 a 50 m.y.a.) 2015. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn unig yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R7 a chynllun D30R11

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffyrdd Cyfyngedig) (Chwilog) 1979. Diddymu'r Ail Atodlen yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R8

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llanystumdwy) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 2004. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R9

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffordd Caernarfon, Cricieth) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1977. Diddymu'r Ail Atodlen yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R10

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (A497, Caerdynni, Cricieth) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1997. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R10

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (A497 Ffordd Penamser, Porthmadog) (Cyfyngiad Cyflymder 30 a 40 m.y.a.) 1997. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn unig yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R12

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffordd Ddi-ddosbarth, Llannor) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1995. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R13

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffyrdd Cyfyngedig) (Abererch) 1980. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R14

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffyrdd Cyfyngedig) (Morfa Bychan) 1979. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R15

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ardal Arfon a Dwyfor) (Cyfyngiad Cyflymder Parth 20 a 30 a 40 m.y.a.) 2017. Diddymu'r Ail Atodlen yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R16 a chynllun D30R17

Gorchymyn Sir Gwynedd (Ffyrdd Cyfyngedig) (Llanbedrog) 1980. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R18

Gorchymyn Sir Gwynedd (A499 Abersoch) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1995. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R19

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Amryw Ffyrdd, Aberdaron) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 2001. Diddymu'r Atodlen Gyntaf yn gyfan-gwbl sy'n cyfeirio at y Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a. Cyfeiriwch at gynllun D30R20

Gorchymyn Sir Gwynedd (Lôn Sarn Bach a Lôn Llanengan, Sarn Bach, Pen Llŷn) (Cyfyngiad Cyflymder 30 m.y.a.) 1994. Diddymu'r holl orchymyn yn ei gyfanrwydd. Cyfeiriwch at gynllun D30R21

**Bydd pob gorchymyn cyfyngu cyflymder blaenorol sy'n berthnasol i ddarnau o ffyrdd a gyfeirir atynt yn cael eu diddymu.**

Dyddiedig y 25ain o Fedi, 2023.

Iwan G D Evans LLB(Anrh.) PGCert. Dip.L.G,
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, **CAERNARFON,** Gwynedd, LL55 1SH
Am fwy o fanylion ynglŷn â'r uchod ffoniwch y Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau 01286 679898 (CAT-4173)

**CYNGOR GWYNEDD**
**(VARIOUS COUNTY ROADS, DWYFOR AREA)**
**(30 M.P.H. SPEED RESTRICTION) ORDER 2023**

On the 13th September, 2023 Cyngor Gwynedd made the above Order in exercise of the powers conferred under Section 82(2) 83(2) 84(1) and (2) and Part III and IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984 and of all other enabling powers. The effect of the Order when it comes into force on the 17th September, 2023 will be to:

1. Restrict speed to 30 m.p.h. on the lengths of roads specified in the First Schedule.
2. Revoke in full or in part the Traffic Orders specified in the Second Schedule.

A copy of the Order together with the maps showing the lengths of roads concerned and a statement of the Council's reasons for making the Order, may be examined at (a) Council Offices, Ffordd y Cob, Pwllheli (b) Public Library, Criccieth (c) Public Library, Nefyn (d) Public Library, Porthmadog and (e) Public Library, Pwllheli during normal business hours. It is also available by sending an email request to cynllun20m.y.a.@gwynedd.llyw.cymru or by making a written request to the address below. Full details of the order are also available on Cyngor Gwynedd's website- https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Traffic-Regulation- Orders.aspx
Any person wishing to question the validity of the Order on the grounds that it is not within the powers conferred by the Road Traffic Regulation Act 1984 or on the ground that any regulations made under the act were not complied with in relation to the Order or any part of it may make application to the High Court for that purpose within six weeks of the date of publication of this notice.

**FIRST SCHEDULE - 30 M.P.H. SPEED RESTRICTION VARIOUS ROADS, DWYFOR AREA**

| | |
|---|---|
| **Aberdaron** | |
| Class 2 Road – B4413 | From a point approximately 157 metres east of its junction with class 3 road passing Bro Hywyn for a distance of approximately 178 metres in an easterly direction. Refer to plan D41 |
| Class 2 Road – B4413 | From its junction with the class 3 road passing Bro Hywyn to a point approximately 86 metres south west of its junction with the Class 3 Road passing the Church in a general south westerly direction. Refer to plan D41 |
| Class 3 Road – Passing Bro Hywyn + Bodernabwy Farm | From its junction with the B4413 to a point approximately 166 metres south west of its junction adjacent to the Church in a general south westerly direction. Refer to plan D41 |
| Class 3 Road – Passing the Church + The Coach House | In its entirety. Refer to plan D41 |
| **Abersoch** | |
| Class 1 Road – A499 Lôn Pont Morgan | From its junction with Whitehouse Drive for a distance of approximately 898 metres in a general northerly direction. Refer to plan D42 |
| **Beddgelert** | |
| Class 1 Road – A498 Stryd Gwynant | From a point approximately 17 metres north east of its junction with Pont y Felin Bridge for a distance of approximately 119 metres in a south westerly direction. Refer to plan D4 |
| **Criccieth** | |
| Class 1 Road – A497 High Street / Porthmadog Road | From its junction with Radcliffe Road for a distance of approximately 433 metres in an easterly direction. Refer to plan D20 |

| | |
|---|---|
| **Edern**<br><br>Class 2 Road – B4417 Lôn Groesffordd | <br><br>From a point approximately 263 metres south west of the crossroads at the centre of the Village for a distance of approximately 222 metres in a south westerly direction. Refer to plan D15 |
| Class 2 Road – B4417 Lôn Goch | From a point approximately 33 metres north of Pont Edern for a distance of approximately 236 metres in a general north easterly direction. Refer to plan D15 |
| **Pentrefelin**<br><br>Class 1 Road – A497 | <br><br>From a point approximately 58 metres south west from its junction with Tabor Road to a point approximately 141 metres east of the junction adjacent to the War Memorial. Refer to plan D21 |
| **Porthmadog**<br><br>Class 1 Road – A4971 Tremadog Road passing Fire Station | <br><br>From its junction with the A487 roundabout for a distance of approximately 113 metres in a southerly direction. Refer to plan D23 |
| Class 3 Road – Borth Road | From a point approximately 8 metres south west of its junction with Hill Street to its junction with Ffordd Morfa Bychan in a southerly direction. Refer to plan D23 and D24 |
| Unclassified Road – Borth Road | From its junction with Ffordd Morfa Bychan for a distance of approximately 342 metres in a southerly direction. Refer to plan D24 |
| Class 3 Road – Morfa Bychan Road | From its junction with Borth Road for a distance of approximately 401 metres in a general south westerly direction. Refer to plan D24 |
| **Prenteg**<br><br>Class 1 Road – A498 | <br><br>From a point approximately 30 metres south of its southerly junction with the unclassified road passing London Terrace for a distance of approximately of 318 metres in a north easterly direction. Refer to plan D9 |
| **Pwllheli**<br><br>Class 1 Road – A497 Abererch Road | <br><br>From a point approximately 6 metres east of Pont Erch for a distance of approximately 484 metres in a north easterly direction. Refer to plan D33 |
| **Tremadog**<br><br>Class 1 Road – A498 Leading to Penamser | <br><br>From its junction with the A487 roundabout for a distance of approximately 215 metres in a south westerly direction. Refer to plan D22 |
| **Tudweiliog**<br><br>Class 2 Road – B4417 | <br><br>From a point approximately 47 metres north east of its junction near the property known as Rhent for a distance of approximately 230 metres in a south westerly direction. Refer to plan D26 |
| **Y Ffôr**<br><br>Class 2 Road – B4354 Leading to Chwilog | <br><br>From a point approximately 16 metres east of its junction with the Gromlech Business Park for a distance of approximately 197 metres in an easterly direction. Refer to plan D17 |

**SECOND SCHEDULE – REVOKE TRAFFIC ORDERS**

The Gwynedd Council (A499 Caernarfon Road, Clynnogfawr) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 2001. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R1

The Gwynedd Council (Lôn Ganol and Lôn Mur Sant, Clynnog Fawr) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1999. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R1

The Gwynedd Council (Garndolbenmaen & Llanengan) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 2009. Revoke the First Schedule in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R2 and plan D30R21

The County of Gwynedd (Unclassified Road Pencaenewydd) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1995. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R3

The County of Gwynedd (Class III Roads in Llangybi) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1993. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R4

The Gwynedd Council (Edern (Various Roads) A499 Y Ffôr, A499 Llanbedrog, B4417 Morfa Nefyn to Edern and the B4412 Morfa Nefyn) (30 and 40 m.p.h. Speed Restriction) Order 2014. Revoke the First Schedule only in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R5

The Gwynedd Council (Class II Road B4417 Nefyn-Morfa Nefyn) (30 and 40 m.p.h. Speed Restriction) Order 2010. Revoke the First Schedule only in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R6

The Gwynedd Council (Dwyfor Area) (30, 40 & 50 m.p.h. Speed Restriction) Order 2015. Revoke the First Schedule only in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R7 and plan D30R11

The County Council of Gwynedd (Restricted Roads) (Chwilog) Order 1979. Revoke the Second Schedule in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R8

The Gwynedd Council (Llanystumdwy) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 2004. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R9

The County of Gwynedd (Caernarfon Road, Criccieth) (30 m.p.h. Speed Limit) Order 1977. Revoke the Second Schedule in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R10

The Gwynedd Council (A497, Caerdynni, Criccieth) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1997. Revoke the First Schedule in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R10

The Gwynedd Council (A497 Penamser Road, Porthmadog) (30 and 40 m.p.h. Speed Restriction) Order 1997. Revoke the First Schedule only in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R12

The County of Gwynedd (Unclassified Road, Llannor) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1995. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R13

The County of Gwynedd (Restricted Roads) (Abererch) Order 1980. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R14

The County of Gwynedd (Restricted Roads) (Morfa Bychan) Order 1979. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R15

The Gwynedd Council (Arfon & Dwyfor Area) (20 Zone and 30 and 40 m.p.h. Speed Restriction) Order 2017. Revoke the Second Schedule in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R16 and plan D30R17

The County of Gwynedd (Restricted Roads) (Llanbedrog) Order 1980. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R18

The County of Gwynedd (A499 Abersoch) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1995. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R19

The Gwynedd Council (Various Roads, Aberdaron) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 2001. Revoke the First Schedule in its entirety which refers to the 30 m.p.h. Speed Restriction. Refer to plan D30R20

The County of Gwynedd (Lôn Sarn Bach & Llanengan Road, Sarn Bach, Pen Llŷn) (30 m.p.h. Speed Restriction) Order 1994. Revoke the whole order in its entirety. Refer to plan D30R21

**All prior speed limit orders relevant to the sections of roads referred to will be revoked**.

Dated the 25th September, 2023.

Iwan G D Evans LLB(Hons) PGCert. Dip.L.G
Head of Legal Services
Cyngor Gwynedd, Shirehall Street, **CAERNARFON,** Gwynedd, LL55 1SH

For further information regarding the above please telephone the Traffic and Projects Service on (01286) 679898

(CAT-4173)